CYFARWYDDIADAU

# DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

## 2010 RHIF 13

# Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Uwch) (Cyfarpar) (Cymru) 2010

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 80, 83, 121 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), drwy hyn yn rhoi'r Cyfarwyddiadau canlynol—

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Cyfarwyddiadau hyn yw Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Uwch) (Cymru) (Diwygio) 2010 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2010.

(2) Rhoddir y Cyfarwyddiadau hyn i Fyrddau Iechyd Lleol yng Nghymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Cyfarwyddiadau hyn—

ystyr "addasu cyfarpar stoma" (*"stoma appliance customisation"*) yw addasu nifer sy'n fwy nag un o'r cyfarpar stoma, pan fo—

(a) y cyfarpar stoma sydd i'w haddasu wedi eu rhestru yn Rhan IXC o'r Tariff Cyffuriau;

(b) yr addasu yn cynnwys addasu nifer o rannau unfath, yn unol â'r un fanyleb, i'w defnyddio gyda phob cyfarpar unigol; ac

(c) yr addasiad hwnnw yn seiliedig ar fesuriadau'r claf, neu gofnod o'r mesuriadau hynny, a phan fo'n gymwys, ar dempled;

(**1**) 2006 p.42

ystyr “blwyddyn ariannol”(*“financial year”*) yw cyfnod o 12 mis sy’n diweddu gyda 31 Mawrth mewn unrhyw flwyddyn;

ystyr “claf cofrestredig” (*“registered patient”*) yw claf sydd wedi ei gynnwys mewn rhestr sy’n rhestr cleifion cofrestredig at ddibenion Rheoliadau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Gwerthu Ewyllys Da a Chyfyngiadau ar Isgontractio) (Cymru) 2004(**1**);

ystyr “cyfarpar penodedig” (*“specified appliance”*) yw—

(a) unrhyw un o’r cyfarpar canlynol a restrir yn Rhan IXA o’r Tariff Cyffuriau—

(i) cyfarpar cathetr (gan gynnwys ategolyn cathetr a hydoddiant cynnal),

(ii) cyfarpar laryngectomi neu draceostomi,

(iii) system ddyfrhau rhefrol,

(iv) pwmp gwactod neu fodrwy darwasgu ar gyfer diffyg ymgodol, neu

(v) cod draenio clwyf;

(b) cyfarpar anymatal a restrir yn Rhan IXB o’r Tariff Cyffuriau; neu

(c) cyfarpar stoma a restrir yn Rhan IXC o’r Tariff Cyffuriau;

ystyr “Cyfarwyddiadau 2005” (*“the 2005 Directions”*) yw Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Uwch ac Ychwanegol) (Cymru) 2005(**2**);

ystyr “cyflenwr cyfarpar” (*“supplier of appliances”*) yw person y mae Bwrdd Iechyd Lleol wedi ymuno mewn trefniadau ag ef i ddarparu gwasanaethau fferyllol, sef trefniadau sydd wedi eu cynnwys mewn telerau gwasanaethu o ganlyniad i reoliad 3(c) o’r Rheoliadau Gwasanaethau Fferyllol;

mae i “fferyllfa” (*“pharmacy”*) yr ystyr a roddir i “pharmacy” yn rheoliad 2(1) o’r Rheoliadau Gwasanaethau Fferyllol;

ystyr “fferyllydd” (*“pharmacist”*)—

(a) yw—

(i) fferyllydd cofrestredig, neu

---

(**1**) O.S. 2004/1017 (Cy.114); *gweler* rheoliad 2(2) o’r Rheoliadau hynny.

(**2**) Llofnodwyd ar 4 Mai 2005. Diwygiwyd y Cyfarwyddiadau hyn gan Gyfarwyddiadau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Uwch ac Ychwanegol) (Cymru) (Diwygio) 2006, a lofnodwyd ar 15 Rhagfyr 2006, a chan Gyfarwyddiadau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Uwch ac Ychwanegol) (Cymru) (Diwygio) 2008, a wnaed ar 3 Mawrth 2008.

(ii) person sydd, yn gyfreithlon, yn cynnal busnes fferyllfa manwerthu yn unol ag adran 69 (darpariaethau cyffredinol) o Ddeddf Meddyginiaethau 1968(**1**),

sydd â'i enw wedi ei gynnwys yn rhestr fferyllol Bwrdd Iechyd Lleol (gan gynnwys fferyllydd sydd wedi ei atal o fod ar restr o'r fath); ond

(b) nid yw'n cynnwys cyflenwr cyfarpar yn unig;

ystyr "gweithiwr gofal iechyd proffesiynol" (*"health care professional"*) yw person sy'n aelod o broffesiwn a reoleiddir gan gorff a grybwyllir yn adran 25(3) o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'r Proffesiynau Gofal Iechyd 2002(**2**) (y Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd);

ystyr "nyrs arbenigol" (*"specialist nurse"*) yw person sydd—

(a) wedi ei gofrestru yn y Rhan Nyrsys neu'r Rhan Nyrsys Iechyd y Cyhoedd Cymunedol Arbenigol o'r gofrestr a gynhelir gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth o dan erthygl 5 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001(**3**) (sefydlu a chynnal cofrestr); a

(b) a gyflogir neu a gymerir ymlaen gan unrhyw fferyllydd neu gyflenwr cyfarpar at y diben o gynnal adolygiad o'r defnydd gan berson o gyfarpar penodedig;

ystyr "Rheoliadau Gwasanaethau Fferyllol" (*"Pharmaceutical Services Regulations"*) yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) 1992(**4**);

ystyr "rhestr fferyllol" (*"pharmaceutical list"*) yw rhestr y cyfeirir ati yn rheoliad 4(1)(a) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Fferyllol (paratoi rhestrau); a

mae i "Tariff Cyffuriau" (*"Drug Tariff"*) yr ystyr a roddir i "Drug Tariff" yn rheoliad 2(1) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Fferyllol.

---

(**1**) 1968 p.67. Diwygiwyd adran 69 gan Ran 12 o Atodlen 1 i Ddeddf Diddymu Cyfraith Statud 1993 (p.50); gan reoliad. 13 o Reoliadau Cymwysterau Ewropeaidd (Fferylliaeth) (Gogledd Iwerddon) 2008 (Rh.S. 2008/182); a chan O.S. 1976/1213 a 2007/289 a 3101.

(**2**) 2002 p.17. Newidiwyd enw'r Cyngor i "Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd" ("*Council for Healthcare Regulatory Excellence*") gan adran 113 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p.14).

(**3**) O.S. 2001/253.

(**4**) O.S. 1992/662. Yr offerynnau perthnasol sy'n diwygio yw O.S. 2007/205 (Cy.19) ac O.S. 2009/1491 (Cy.144)

*Gwasanaethau addasu cyfarpar stoma*

**Sefydlu a chynnal gwasanaethau addasu cyfarpar stoma**

**3.**—(1) Pwrpas gwaelodol gwasanaeth addasu cyfarpar stoma yw—

(a) sicrhau bod claf yn defnyddio'r cyfarpar stoma mewn modd priodol a chyffyrddus; a

(b) gwella parhad cyfnod defnyddio'r cyfarpar, a thrwy hynny leihau'r gwastraff o gyfarpar o'r fath.

(2) Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol wneud trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau addasu cyfarpar stoma i bersonau y tu mewn a thu allan i'w ardal, gan unrhyw fferyllydd ("Ff") neu gyflenwr cyfarpar ("C")—

(a) sydd ar restr fferyllol y Bwrdd Iechyd Lleol;

(b) sy'n cyflenwi cyfarpar stoma a restrir yn Rhan IXC o'r Tariff Cyffuriau yng nghwrs arferol ei fusnes;

(c) sy'n dymuno ymuno yn y trefniadau; ac

(ch) os, mewn perthynas â'r cyfryw fferyllydd neu gyflenwr—

(i) bodlonir Amod 1, 2 a 3, a

(ii) os oes gwasanaethau i gael eu darparu yn rhywle ac eithrio fferyllfa Ff neu fangre C, bodlonir Amod 4 yn ogystal.

(3) Amod 1 yw fod y Bwrdd Iechyd Lleol, cyn yr ymunir mewn unrhyw drefniadau, wedi ei hysbysu bod Ff neu C yn dymuno darparu gwasanaethau addasu cyfarpar stoma.

(4) Amod 2 yw—

(a) bod Ff neu C yn cydymffurfio'n foddhaol â rhwymedigaethau Ff o dan Atodlen 1 i'r Reoliadau Gwasanaethau Fferyllol, neu rwymedigaethau C o dan Atodlen 3 i'r Rheoliadau hynny, (yn ôl fel y digwydd);

(b) bod gan Ff neu C system lywodraethu clinigol dderbyniol; ac

(c) bod Ff neu C wedi sefydlu gweithdrefnau i sicrhau yr atgyfeirir y claf at bresgripsiynydd y cyfarpar mewn unrhyw achos—

(i) pan nad yw cyfarpar stoma addasedig yn addas ar gyfer ei addasu ymhellach, neu

(ii) pan fo cyfarpar stoma wedi ei addasu ac nad yw ffitio'r claf yn briodol.

(5) Amod 3 yw fod rhaid darparu'r gwasanaethau addasu cyfarpar stoma mewn lleoliad derbyniol, ac at y diben hwnnw, ystyr "lleoliad derbyniol (*"acceptable location"*) yw—

(a) man o fewn fferyllfa Ff neu fangre C sydd—

  (i) ar wahân i'r mannau cyhoeddus cyffredinol,

  (ii) ar bob adeg pan ddarperir gwasanaethau addasu cyfarpar stoma, wedi ei ddynodi yn eglur fel man preifat,

  (iii) yn addas ac wedi ei ddynodi ar gyfer cadw'r offer priodol i addasu cyfarpar stoma,

  (iv) yn addas ac wedi ei ddynodi ar gyfer cyflawni addasiadau cyfarpar stoma, a

  (v) yn addas ac wedi ei ddynodi ar gyfer y nifer o offer stoma y gellir eu haddasu ar unrhyw un adeg; neu

(b) man arall, yn hytrach na fferyllfa Ff neu fangre C, sydd—

  (i) ar wahân i'r mannau cyhoeddus cyffredinol yn y fangre y'i lleolir ynddi, a

  (ii) yn bodloni gofynion paragraff (a)(ii) i (v).

(6) Amod 4 yw, mewn unrhyw achos pan fo gwasanaethau addasu cyfarpar stoma i'w darparu yn rhywle heblaw fferyllfa Ff neu fangre C, rhaid bod gweithdrefnau wedi eu sefydlu, a fydd yn sicrhau y cydweithredir ag unrhyw arolygiad neu adolygiad rhesymol o'r fangre gan Fwrdd Iechyd Lleol yr ardal lle y darperir y gwasanaethau.

**Gofynion sy'n gymwys i wasanaethau addasu cyfarpar stoma**

**4.**—(1) Mae'r cyfarwyddyd hwn yn cael effaith mewn perthynas ag unrhyw drefniadau gyda fferyllydd ("Ff") neu gyflenwr cyfarpar ("C") a wneir yn unol â chyfarwyddyd 3.

(2) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod y trefniadau'n darparu—

(a) mai personau sydd â'r hyfforddiant a'r cymwysterau priodol, yn unig, y caniateir iddynt addasu cyfarpar stoma;

(b) bod rhaid cwblhau cofnod o bob addasiad cyfarpar stoma;

(c) bod rhaid i bob cofnod gynnwys yr wybodaeth a restrir ym mharagraff (3);

(ch) bod rhaid dal gafael ar bob cofnod am gyfnod o 12 mis o leiaf, neu ba bynnag gyfnod hwy a fydd yn ofynnol, yn rhesymol, gan y Bwrdd Iechyd Lleol;

(d) bod rhaid darparu copi o'r cofnod i'r claf, neu, os yw'r claf yn gofyn hynny, i'r

presgripsiynydd neu i weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall; ac

(dd) oni rwystrir ef rhag gwneud hynny gan salwch neu achos rhesymol arall, rhaid i Ff neu C roi 3 mis o leiaf o rybudd ysgrifenedig i'r Bwrdd Iechyd Lleol cyn rhoi'r gorau i ddarparu unrhyw wasanaethau addasu cyfarpar stoma.

(3) Rhaid i bob cofnod o addasu cyfarpar stoma gynnwys—

(a) manylion y cyngor a roddwyd;

(b) y math o gyfarpar stoma a addaswyd;

(c) y dimensiynau a ddefnyddiwyd mewn perthynas ag addasu rhannau o'r cyfarpar;

(ch) y mesuriadau o'r claf (os gwnaed mesuriadau);

(d) dimensiynau unrhyw dempled a wnaed, neu addasiad i unrhyw dempled;

(dd) unrhyw atgyfeiriadau a wnaed at y presgripsiynydd ; ac

(e) pa bynnag fanylion eraill a bennir yn y trefniadau a wneir gydag Ff neu C.

(4) Ceir gwneud y cofnodion o'r addasiadau cyfarpar stoma mewn ffurf electronig, a'u storio yn electronig.

*Gwasanaethau adolygu defnyddio cyfarpar, ar gyfer mathau penodol o gyfarpar*

**Sefydlu a chynnal gwasanaethau adolygu defnyddio cyfarpar, ar gyfer mathau penodol o gyfarpar**

**5.**—(1) Pwrpas gwaelodol gwasanaeth adolygu defnyddio cyfarpar ("gwasanaeth ADC") yw, gyda chydsyniad y claf, gwella gwybodaeth y claf ynglŷn â chyfarpar penodedig a'r modd y'i defnyddir, yn benodol drwy—

(a) canfod y modd y mae'r claf yn defnyddio'r cyfarpar penodedig, a phrofiad y claf o'i ddefnyddio;

(b) nodi, trafod a chynorthwyo i ddatrys unrhyw ddefnydd gwael neu aneffeithiol o'r cyfarpar gan y claf;

(c) cynghori'r claf ynglŷn â storio'r offer penodedig mewn modd diogel a phriodol; ac

(ch) cynghori'r claf ynglŷn â gwaredu yn ddiogel a phriodol unrhyw gyfarpar penodedig sydd wedi eu defnyddio, neu'n ddiangen,

a cheir darparu gwasanaeth ADC naill ai pan fo fferyllydd neu nyrs arbenigol yn ymweld â chlaf yn ei gartref, neu pan fo claf yn ymweld â fferyllfa neu fangre cyflenwr cyfarpar.

(2) Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol wneud trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau ADC i bersonau y tu mewn a thu allan i'w ardal, gan unrhyw fferyllydd ("Ff") neu gyflenwr cyfarpar ("C")—

(a) sydd ar restr fferyllol y Bwrdd Iechyd Lleol;

(b) sy'n cyflenwi cyfarpar penodedig yng nghwrs arferol ei fusnes;

(c) sy'n dymuno ymuno yn y trefniadau; ac

(ch) os, mewn perthynas â'r cyfryw fferyllydd neu gyflenwr—

(i) bodlonir Amod 1, 2 a 3, a

(ii) os oes gwasanaethau i gael eu darparu yn rhywle ac eithrio fferyllfa Ff neu fangre C, bodlonir Amod 4 yn ogystal.

(3) Amod 1 yw fod y Bwrdd Iechyd Lleol, cyn yr ymunir mewn unrhyw drefniadau, wedi cael—

(a) hysbysiad bod Ff neu C yn dymuno darparu gwasanaethau ADC;

(b) datganiad a yw Ff neu C yn bwriadu darparu gwasanaethau i gleifion yn eu cartrefi; ac

(c) oni fwriedir darparu gwasanaethau i gleifion yn eu cartrefi yn unig, datganiad am bob un o'r lleoliadau y bwriedir darparu gwasanaethau ynddynt.

(4) Amod 2 yw fod y Bwrdd Iechyd Lleol, cyn yr ymunir mewn unrhyw drefniadau, hefyd wedi cael yr wybodaeth ganlynol am bob fferyllydd neu nyrs arbenigol a fydd, yn rhan o'r gwasanaethau ADC sydd i'w darparu gan Ff neu C, yn adolygu'r defnydd o gyfarpar penodedig—

(a) enw llawn;

(b) tystiolaeth ddogfennol o'u cymwysterau; ac

(c) manylion ynglŷn â'u cymhwysedd o ran defnyddio'r cyfarpar penodedig.

(5) Amod 3 yw—

(a) bod Ff neu C yn cydymffurfio'n foddhaol â rhwymedigaethau Ff o dan Atodlen 1 i'r Reoliadau Gwasanaethau Fferyllol, neu rwymedigaethau C o dan Atodlen 3 i'r Rheoliadau hynny, (yn ôl fel y digwydd);

(b) bod gan Ff neu C system lywodraethu clinigol dderbyniol; ac

(c) bod Ff neu C wedi sefydlu gweithdrefnau i sicrhau yr atgyfeirir y claf at bresgripsiynydd y cyfarpar mewn unrhyw achos pan fo mater yn codi, yng nghwrs gwasanaeth ADC ynglŷn â defnydd gan y claf o gyfarpar penodedig, os yw'r mater hwnnw y tu allan i briod faes y gwasanaeth.

(6) Amod 4 yw, pan fo gwasanaethau ADC i'w darparu mewn fferyllfa neu ym mangre cyflenwr

cyfarpar, bod man ymgynghori yn y fferyllfa neu'r fangre sydd —

(a) ar wahân i'r mannau cyhoeddus cyffredinol;

(b) ar bob adeg pan fo fferyllydd neu nyrs arbenigol yn adolygu'r defnydd o gyfarpar penodedig, wedi ei ddynodi'n eglur fel man ar gyfer ymgynghori cyfrinachol;

(c) yn caniatáu i'r holl bersonau sy'n cymryd rhan yn yr adolygiad eistedd a siarad yn arferol o uchel, heb fod o fewn clyw'r staff neu ymwelwyr eraill â'r fferyllfa neu'r fangre; ac

(ch) o ystyried natur y cyfarpar penodedig a diben gwaelodol y gwasanaethau ADC, yn addas ar gyfer ymgynghori i ganfod y modd y mae claf yn defnyddio cyfarpar, a maint gwybodaeth y claf ynglŷn â'r cyfarpar.

**Gofynion sy'n gymwys i wasanaethau adolygu defnyddio cyfarpar**

**6.**—(1) Mae'r cyfarwyddyd hwn yn cael effaith mewn perthynas ag unrhyw drefniadau a wneir gyda fferyllydd ("Ff") neu gyflenwr cyfarpar ("C") yn unol â chyfarwyddyd 5.

(2) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod y trefniadau yn cynnwys y cyfryw ddarpariaeth ynghylch—

(a) cymwysterau'r personau sy'n adolygu'r modd y mae claf yn defnyddio cyfarpar penodedig ;

(b) cyflenwi pob gwasanaeth ADC; ac

(c) gweinyddu'r gwasanaethau ADC,

ag a bennir yn narpariaethau canlynol y cyfarwyddyd hwn.

(3) Y ddarpariaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (2)(a) yw—

(a) fferyllydd neu nyrs arbenigol yn unig gaiff adolygu'r defnydd o gyfarpar penodedig; a

(b) rhaid anfon at y Bwrdd Iechyd Lleol yr wybodaeth ganlynol am bob fferyllydd neu nyrs arbenigol a fydd, yn rhan o wasanaethau ADC a ddarperir gan Ff neu C, yn adolygu'r defnydd o gyfarpar penodedig—

(i) enw llawn,

(ii) tystiolaeth ddogfennol o addysg, hyfforddiant neu brofiad mewn perthynas â defnyddio cyfarpar penodedig, a

(iii) manylion fel y bo'n briodol o hyfforddiant ac ymarfer clinigol perthnasol mewn perthynas â defnyddio cyfarpar penodedig.

(4) Y ddarpariaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (2)(b) yw —

(a) pan fo modd yn rhesymol, rhaid darparu gwasanaeth ADC o fewn dau ddiwrnod gwaith ar ôl y diwrnod pan fo’r claf yn gofyn am adolygiad neu’n cytuno i adolygiad a awgrymwyd gan Ff neu C;

(b) rhaid i’r fferyllydd neu’r nyrs arbenigol sy’n adolygu’r defnydd o gyfarpar penodedig gan y claf gael cydsyniad ysgrifenedig y claf i dderbyn y gwasanaeth, ymlaen llaw;

(c) rhaid cwblhau cofnod o bob gwasanaeth;

(ch) rhaid i bob cofnod gynnwys—

(i) dyddiad yr adolygiad o’r defnydd o’r cyfarpar penodedig gan y claf,

(ii) enw’r fferyllydd neu’r nyrs arbenigol a gyflawnodd yr adolygiad,

(iii) enw’r claf a chyfeiriad y man lle gwnaed yr adolygiad,

(iv) enw unrhyw berson arall a oedd yn bresennol (a’i berthynas â’r claf),

(v) y rheswm pam yr oedd adolygiad yn ofynnol,

(vi) y cyngor a roddwyd i’r claf, a

(vii) unrhyw ymyriad a wnaed; a

(d) rhaid hysbysu’r claf mewn ysgrifen y bydd cofnod yn cael ei gadw, ac yr anfonir gwybodaeth allan ohono yn unol â pharagraffau (5)(a) i (ch).

(5) Y ddarpariaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (2)(c) yw —

(a) rhaid anfon copi o bob cofnod o wasanaeth ADC at Ff neu C;

(b) os yw’r claf yn glaf cofrestredig, rhaid anfon yr wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (4)(ch)(i), (ii) a (iii) at unrhyw ddarparwr gwasanaethau meddygol sylfaenol y mae’r claf wedi ei gofrestru gydag ef;

(c) os yw’r claf yn glaf cofrestredig a’r fferyllydd neu’r nyrs arbenigol o’r farn bod angen i’r darparwr gwasanaethau meddygol sylfaenol, y mae’r claf wedi ei gofrestru gydag ef, gael unrhyw wybodaeth arall allan o’r cofnod, rhaid anfon pob gwybodaeth o’r fath at y darparwr hwnnw;

(ch) rhaid anfon copi o unrhyw wybodaeth a roddir i unrhyw ddarparwr gwasanaethau meddygol sylfaenol o dan y paragraff hwn at unrhyw nyrs a gyflogir gan Fwrdd Iechyd Lleol, sy’n ymarfer gyda’r darparwr hwnnw ac yn darparu gwasanaethau meddygol

sylfaenol perthnasol i'r claf, os yw'n hysbys bod nyrs o'r fath yn bod;

(d) rhaid dal gafael ar bob cofnod am gyfnod o 12 mis o leiaf, neu ba bynnag gyfnod hwy a fydd yn ofynnol, yn rhesymol, gan y Bwrdd Iechyd Lleol; ac

(e) rhaid cyflwyno gwybodaeth am y nifer o wasanaethau ADC a ddarperir mewn unrhyw flwyddyn ariannol, yn unol ag unrhyw drefniadau ar gyfer talu yr hysbysir Ff neu C ohonynt.

(6) Ceir gwneud y cofnod o wasanaeth ADC mewn ffurf electronig, a'i storio yn electronig.

### Y nifer mwyaf o wasanaethau adolygu defnyddio cyfarpar sy'n gymwys ar gyfer tâl

**7.** Y nifer mwyaf o wasanaethau ADC y bydd fferyllydd ("Ff") neu gyflenwr cyfarpar ("C") yn gymwys i gael tâl amdanynt mewn unrhyw flwyddyn ariannol yw dim mwy nag 1/35 o nifer cyfanredol y cyfarpar penodedig a weinyddir gan Ff neu C (yn ôl fel y digwydd) yn ystod y flwyddyn ariannol honno.

### Diwygio Cyfarwyddiadau 2005

**8.** Yng Nghyfarwyddiadau 2005, yn lle paragraff (1)(e) o gyfarwyddyd 4 (gwell gwasanaethau), rhodder—

"(e) a Home Delivery Service, the underlying purpose of which is for the pharmacist to deliver to the patient's home—

(i) drugs, and

(ii) appliances other than specified appliances within the meaning of regulation 2(1) of the Pharmaceutical Services Regulations;".

### Darpariaeth drosiannol

**9.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys i unrhyw drefniadau a wnaed rhwng Bwrdd Iechyd Lleol a fferyllydd o dan gyfarwyddyd 4(1)(e) o Gyfarwyddiadau 2005 ac a oedd mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2010.

(2) I'r graddau y mae'r trefniadau'n ymwneud â danfon unrhyw gyfarpar penodedig i gartrefi gan y fferyllydd, caiff y trefniadau barhau mewn grym—

(a) hyd nes bo'r fferyllydd yn ymuno mewn trefniadau i ddarparu gwasanaethau adolygu defnyddio cyfarpar yn unol â chyfarwyddiadau 5 a 6; neu

(b) os yw’n ddiweddarach, tan 31 Rhagfyr 2010.

Llofnodwyd dan awdurdod Gweinidogion Cymru

*Jeannette Howe*
Pennaeth Fferylliaeth

2010